Llyfrgell Rydd Caerdydd
—
Rhodd yr Awdwr.

4.177

# ARWYRAIN Y TADAU.

A ganlyn yw'r cywydd a adroddwyd ar ddiwedd y gerdd, "Ymweliad y Tadau," a ddatganwyd gan ddeuddeg o efrydwyr Coleg Diwinyddol Aberystwyth yng ngwyl Dewi. Traethid ar bynciau ynglyn a'r Coleg a Chyfundeb y Methoditiaid gan y Tadau Methodistiaidd, sef Howell Harris, Daniel Rowlands, a Charles o'r Bala, ynglyn a nifer o efrydwyr mewn ymddiddan ac ar gan. Adroddwyd "Arwyrain y Tadau" gan Arthur Llewelyn o'r Pentre Bugail, y ddeadell Fethodistiaidd yn Johnstown.

O Dadau, ddoethed ydych!
Os hwyr eich gwaith, serchog ych.
Rhoisoch o'ch stor gynghorion
O bur-wiw ddysg i braidd Ion.
Eich profiad a'ch cariad cu
Eich ceraint bair i'ch caru.
Gwelwch eich tylwyth gwylaidd
A eilw Prif Fugail y praidd.
Goreu dysg, gan deg wr da,
Fu acen hoff Trefecca;
Harris orlawn o hiraeth,
A'i drem lwys yn ddwys a ddaeth:
Gwedd deg ar Goleg a ga,
A llawn hedd a'i llonydda.
Syndod fu'r hynaws undeb,
Rhwyg a nwyd ni ddrygai neb.
O'r antur gwelir yntau
Oll 'n ei hwyl yn llawenhau.
A Rowlands sy'n hir holi
Am ein sedd a'n hagwedd ni.
Llawn gwaith fu Tad Llangeitho,
O lwyr fryd i lywio'r fro;
Bro astud Aberystwyth
O'r unrhyw ddawn fed lawn lwyth.
Siarl enwog, siriol, lonydd,
Roes i'w blant hyfforddiant ffydd;
Hyglod ar Natur Eglwys,
Ei eiriau pur, aur eu pwys;
Maith destyn Methodistiaeth,
Yn gryno i ni'r gwron wnaeth.
Trefnydd mad y Geiriadur
Una ni a'r Bala bur;
Rhydd 'n hyn draidd o'i beraidd bin
Gryf urddas ar Gaerfyrddin.

Yn iach, Dadau, gwych, dedwydd;
Eich doeth lith o fendith fydd.
O'n Coleg ni encilia
Dawn ieuenctyd, diwyd, da;
Ynof draw eu nwyf a drig
Yn nhymorau'r Amerig.
Mawl iwch am roi ymweliad
Dan radau y deau Dad.

IEUAN MYNYW.

{T. Jones Evans.

X205 245160

6724